Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bodfeurig

Ysgol Bodfeurig
Sling
Tregarth
Gwynedd
LL57 4RN

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bodfeurig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bodfeurig |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 41 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 3 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 6.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 5.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bodfeurig yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae'r ethos cynhwysol a theuluol yn sicrhau bod bron bob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r rhai ieuengaf yn ofalus, gan feithrin medrau cymdeithasol cadarn.

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae gweithdrefnau hunanwella cadarn wedi'u sefydlu, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn llwyddiannus. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar ddiwylliant Cymreig sy'n cefnogi disgyblion i deimlo'n falch o'u medrau dwyieithrwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n naturiol gydag ymwelwyr a chyfoedion. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn ac yn dangos mwynhad wrth ymgolli mewn gwahanol destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed yn y Gymraeg. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn adeiladol dros amser.

Mae staff yn defnyddio'r amgylchedd dysgu yn effeithiol i ysgogi disgyblion, gan ddarparu cymorth a her briodol. Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Ar adegau, mae gor-arwain gan staff yn arafu gallu'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chreadigol yn gyson.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol i ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn caffael barn rhieni ac yn ymateb yn rhagweithiol ac amserol i'r canfyddiadau. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn treiddio'n werthfawr ar draws cymuned glòs yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Datblygu medrau ysgrifennu Saesneg disgyblion

A2. Darparu cyfleoedd cyson i’r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chreadigol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, gyfeillgar a chroesawgar lle mae staff a’r disgyblion yn ymdrin â’i gilydd gyda charedigrwydd a gofal. Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, cynhaliol a theuluol hyfryd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Rhinwedd nodedig o’r ysgol yw’r modd mae’r disgyblion hynaf yn cefnogi’r disgyblion ieuengaf yn ofalgar a chwbl naturiol wrth ddysgu a chwarae. Mae hyn yn meithrin a hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol cadarn ymysg bron bob disgybl ar draws yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel ohono ef ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae’n cydweithio’n agos â’r pennaeth cynorthwyol a’r staff i sicrhau profiadau dysgu diddorol ar gyfer y disgyblion. O dan arweiniad y pennaeth, mae gweithdrefnau hunanwella wedi gwreiddio’n llwyddiannus. Mae’r holl dîm yn cyfrannu at y gweithdrefnau hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o’u rolau er mwyn datblygu’r ddarpariaeth a gwella profiadau dysgu, lles a chynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo’r Gymraeg ac yn cymryd camau bwriadus i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau Cymreig yn ystod amseroedd egwyl dan ofal y cyngor ysgol a thrwy hyrwyddo mwynhad y disgyblion mewn darllen. O ganlyniad i’r pwyslais cryf ar ddatblygu’r Gymraeg a diwylliant Cymreig, mae‘r disgyblion yn hyderus i sgwrsio gyda’u cyfoedion ac ymwelwyr ac yn ymfalchïo yn eu medrau dwyieithrwydd. Yn ogystal, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr sy’n cyfrannu at ddatblygu credoau ysbrydol a moesegol disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i ymchwilio i faterion sy’n gysylltiedig â goddefgarwch a pharch at bobl eraill.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg, er enghraifft wrth ddysgu mewn meysydd ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau anffurfiol fel yn y ‘Cornel Cymraeg’ ar y buarth. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda ac maent yn aml yn ymgolli mewn amrywiaeth o destunau wrth gymhwyso'r medrau hyn. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn annibynnol ac yn rheolaidd yn eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu’n ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed ac yn mynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn amrywiol ffurfiau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn adeiladol dros amser.

Mae perthynas weithiol staff â’r rhieni yn gryfder ac mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae’r pennaeth yn caffael barn rhieni am agweddau pwysig o brofiadau dysgu’r disgyblion yn gyson. Mae rhieni’n gwerthfawrogi bod arweinwyr yn gwrando ac yn ymateb i’w syniadau yn amserol, er enghraifft wrth gydweithio i hyrwyddo presenoldeb cyson eu plant yn yr ysgol.

Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â’r gymuned leol i gynnig profiadau gwerthfawr i’r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio themâu ysgogol sy’n plethu agweddau o ardal leol y disgyblion yn fedrus. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad a gwytnwch wrth gwblhau tasgau.

Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion sydd, yn ei dro, yn arwain atynt  yn dangos parch a chwrteisi aeddfed tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb a balchder yn eu dysgu. Yn y gweithgareddau dysgu, maent yn ymgyfarwyddo’n gyflym â’r tasgau ac yn canolbwyntio’n dda am gyfnodau estynedig. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r amgylchedd dysgu i gefnogi ac ysgogi disgyblion. Mae’r cymorthyddion yn cymryd rhan weithredol yn y tasgau gan herio a holi’r disgyblion yn fedrus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gynllunio taith ar draws y byd i weld y rhyfeddodau enwog a thrwy roi cyfarwyddiadau i declyn rhaglenadwy i deithio o gwmpas yr ardal leol. Yn yr arfer orau, mae’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol drwy ddewis a dethol beth a sut i gofnodi eu gwaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu hannibyniaeth yn gynyddol dda, er enghraifft mewn sesiynau yn y goedwig. Er hyn, ar adegau, mae gor-arwain gan staff yn arafu gallu'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chreadigol yn gyson.

Mae gan staff weithdrefnau effeithiol wrth olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae’r staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth ychwanegol ar eu cyfer i’w cefnogi i wneud cynnydd cyson. Maent yn darparu rhaglenni cymorth penodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd, a lles emosiynol disgyblion. Trwy hyn, maent yn gwerthuso effaith y rhaglenni cefnogi yn ofalus gan fireinio ac ailosod camau defnyddiol ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi’r disgyblion i barhau i wneud cynnydd da dros amser.

Ar y cyfan, mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol i’r ysgol, ac yn ddiweddar, maent wedi dechrau cyfrannu at y prosesau hunanwella sydd yn eu galluogi i adnabod cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella. Maent yn cael gwybodaeth gyfredol, reolaidd gan y pennaeth ac yn defnyddio eu profiadau o’u hymweliadau i’r ysgol i gefnogi a herio arweinwyr, fel bo’n briodol.

Mae’r pennaeth yn ystyriol o faich gwaith staff ac yn mynd i’r afael â newidiadau i’r ddarpariaeth a fydd yn cefnogi eu lles yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae baich gwaith staff wedi lleihau yn dilyn adolygiad o’r polisi adborth. Mae hyn wedi arwain at wella annibyniaeth disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella’u gwaith a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau, ymweld ag arfer dda mewn ysgolion lleol a mynychu hyfforddiant sy’n cysylltu’n uniongyrchol â’u hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Drwy gydweithio cyson a bwriadus ag ysgol leol, sydd hefyd o dan arweinyddiaeth y pennaeth, mae arweinwyr yn hyrwyddo'r ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu yn effeithiol, er enghraifft wrth rannu syniadau ac arferion addysgu a dysgu effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/05/2025